# Corwen

llwybr y dref
town trail

sir ddinbych
denbighshire





## 5 Taith

Trefi marchnad prysur wedi'u hamgylchynu gan un o'r tirweddau mwyaf prydferth a ddiogelir yng Nghymru. Morlin trawiadol. Atyniadau treftadaeth byd-enwog a byd celfyddydol cyffrous. Bwyd a diod bendigedig.

Mae cymaint yn digwydd yn Sir Ddinbych fel ei bod yn anodd gwybod lle i ddechrau. Felly rydym ni wedi creu pum taith wahanol i chi archwilio.

Beth bynnag eich hwyliau neu'ch hoffter, mae yna daith sy'n berffaith i chi – sy'n cynnwys llwybrau arfordirol syfrdanol, tirnodau cefn gwlad, cadarnleoedd tyrog, trysorau diwylliannol a chyrchfannau coginiol.

Codwch gopi o'r daflen 5 Taith neu llwythwch hi i lawr ar ein gwefan.

www.gogleddddwyraincymru.cymru

## 5 Journeys

Bustling market towns surrounded by one of the most beautiful protected landscapes in Wales. A spectacular coastline. World-famous heritage attractions and a buzzing arts scene. Delicious food and drink.

There's so much going on in Denbighshire that it's hard to know where to start. So we've created a set of five different journeys for you to experience.

Whatever your mood or personal passion, there's a route that's right for you – taking in epic coastal paths, countryside landmarks, towering fortresses, cultural treasures or culinary destinations along the way.

Pick up the 5 Journeys leaflet or download it from our website.

www.northeastwales.wales

## Tref i bob diwrnod

Nid Corwen yw'r unig dref yn Sir Ddinbych gyda llwybr ei hun. Mae saith llwybr arall – pob un yn llawn o ddiddordeb hanesyddol. Ond pob un yn wahanol iawn, gyda'r gobaith y byddwch yn darganfod hynny dros eich hunain. Cyn belled â bod gennych wythnos neu ddwy arall i'w sbario.

## A town for every day

Corwen isn't the only town in Denbighshire with its very own trail. There are seven others – all packed with historic interest. But all very different, as we hope you'll discover for yourself. Just as long as you have another week or so to spare.

Ewch i Rhuthun i weld yr oriel celfyddydau cymhwysol gorau yng Nghymru, Llangollen am ei rheilffordd stem a'i chelfyddyd bywiog, Corwen i weld cofeb un o arwyr mwyaf Cymru a Dinbych am ei chastell ar ben y bryn a muriau tref atgofus.







Visit Ruthin for the best applied arts gallery in Wales, Llangollen for its steam railway and thriving arts scene, Corwen for a stirring memorial to Wales's greatest hero and Denbigh for its hilltop castle and evocative town walls.

Ewch i'r Rhyl ar gyfer ei phromenâd a thair milltir o dywod euraidd, Prestatyn ar gyfer dechrau Llwybr Cenedlaethol Clawdd Offa, Rhuddlan am ei chastell ar lan yr afon a Llanelwy i weld y gadeirlan hynafol leiaf ym Mhrydain.

Visit Rhyl for its promenade and three miles of golden sands, Prestatyn for the start of Offa's Dyke Path National Trail, Rhuddlan for its stupendous riverside castle and St Asaph for the smallest ancient cathedral in Britain.

## Rhannwch
## Let's share

gogledddcymru_northeastwales

NthEastWales

@NthEastWales

North East Wales

twristiaeth@sirddinbych.gov.uk
tourism@denbighshire.gov.uk

www.gogleddddwyraincymru.cymru
www.northeastwales.wales

Canolfannau Croeso
Tourist Information Centres

Gogledd | North 01745 344515
De | South 01978 860828

dylunio/design White Fox 01352 741069 www.thinkwhitefox.com


sir ddinbych denbighshire Cyngor County Council

GOGLEDD DDWYRAIN CYMRU Gwych gyda'n gilydd | NORTH EAST WALES Altogether brilliant



**Ffotograffau / Photography**
© Hawlfraint y Goron (2019) Croeso Cymru / © Crown copyright (2019) Visit Wales, White Fox, Laurence Crossman-Emms



Cyhoeddwyd gan Dîm Twristiaeth, Marchnata a Digwyddiadau Cyngor Sir Ddinbych
Published by Denbighshire County Council's Tourism, Marketing and Events Team


## Darganfod Corwen

Mae tref farchnad fechan Corwen wedi mwynhau statws uwch na'r disgwyl am ganrifoedd lawer. Gyda'i safle strategol wrth droed Mynyddoedd y Berwyn ger troad eang yn yr Afon Dyfrdwy, mae saint o'r chweched ganrif, byddinoedd goresgynnol ac amddiffynnol, porthmyn a theithwyr coetsis Fictoraidd wedi ymweld â'r dref yn eu tro.

Felly, mae'r "Groesffyrdd" hon yng Ngogledd Cymru wedi cael digon o ymarfer o ran croesawu teithwyr. Y dyddiau hyn, maent yn dod am y bwyd a diod, yr ymdeimlad o hanes ac i archwilio un o dirweddau gwarchodedig harddaf Prydain.

Mae Corwen yn dref sydd â Chroeso i Gerddwyr ac mae'r daith gylchol fer hon, gyda thaith ddewisol i fyny bryn Pen y Pigyn, yn fan cychwyn ardderchog. Mae Ffordd Gogledd y Berwyn, sy'n dringo'r mynyddoedd gwyllt rwng Corwen a Llangollen, yn dipyn mwy o her.

## Exploring Corwen

The little market town of Corwen has punched above its weight for many centuries. Occupying a strategic spot at the foot of the Berwyn Mountains beside a wide sweep of the River Dee, it's been visited in turn by sixth century saints, invading and defending armies, cattle drovers and Victorian coach passengers.

So this "Crossroads of North Wales" has had plenty of practice in welcoming travellers. Nowadays they come for the food and drink, for the sense of history and to explore one of Britain's loveliest protected landscapes.

Corwen is a Walkers Are Welcome town and this short circular tour, with a detour up Pen y Pigyn hillside, is a great place to start. The North Berwyn Way, which climbs the wild mountains between Corwen and Llangollen, is a bit more of a challenge.







## Beth sy'n ei wneud yn arbennig?

Dau air: Owain Glyndŵr. Ewch chi ddim ym mhell yng Nghorwen a'r cyffiniau heb ddod o hyd i bethau i'ch atgoffa am Dywysog brodorol olaf Cymru.

Yn sicr, fedrwch chi ddim methu'r cerflun maint llawn o Owain wrth ymyl ei geffyl brwydr ar Y Sgwâr – yn union gyferbyn â'r gwesty sy'n dwyn ei enw. Dair milltir i'r dwyrain yn Llidiart-y-Parc y mae'r twmpath lle lansiodd ei wrthryfel yn erbyn rheolaeth Seisnig.

Corwen yw cartref hynafiaid Owain Glyndŵr, arwr cenedlaethol Cymru sydd, yn ôl y chwedl, ynghwsg yn aros i ddeffro eto ryw ddydd pan fydd ar ei wlad ei angen fwyaf. Dysgwch fwy am fywyd Owain Glyndŵr yn Amgueddfa Corwen – rhif 3 ar fap llwybr y dref drosodd.

Ewch i www.gogleddddwyraincymru.cymru

## What makes it special?

Two words: Owain Glyndŵr. You won't get far in Corwen or the surrounding area without finding reminders of the last native-born Prince of Wales.

You certainly can't miss the life-size statue of Owain astride his battle horse in The Square – right opposite the hotel that bears his name. Three miles to the east at Llidiart-y-Parc is the mound from which he launched his revolt against English rule.

Corwen is the ancestral home of Wales's national hero, the mythic figure who's said to lie sleeping until his country's greatest need. Find out more about the life and times of Owain Glyndŵr at Corwen Museum – number 3 on the town trail map overleaf.

Visit www.northeastwales.wales

## Ble awn ni nesaf?

Dylai siopau, caffis, tafarndai ac adeiladau hanesyddol Corwen eich cadw'n brysur am sbel. Ond os ydych chi'n penderfynu symud ymlaen, byddwch yn dod ar draws rhai o brif atyniadau Gogledd Cymru dim ond ychydig filltiroedd i ffwrdd.

## Where shall we go next?

The shops, cafés, pubs and historic buildings of Corwen should keep you busy for a while. When you do decide to move on, you'll find some of the leading attractions of North Wales just a few miles away.

### Plas Newydd

Ewch i gartref Gothig cywrain "Merched Llangollen", cerddwch trwy eu gerddi a chael paned yn yr hen stabl.

@plasnewyddllangollen



### Plas Newydd

Visit the elaborate Gothic home of "The Ladies of Llangollen", stroll their gardens and take tea in the old stable.

@plasnewyddllangollen

### Canolfan Grefft Rhuthun

Tair oriel, stiwdios gwneuthurwyr, siop a chaffi – y cyfan mewn adeilad cyfoes sy'n waith celf ynddo'i hun.

www.canolfangrefftrhuthun.org.uk
01824 704774



### Ruthin Craft Centre


Three galleries, makers' studios, a shop and a café – all in a contemporary building that's a work of art in itself.

www.ruthincraftcentre.org.uk
01824 704774

### Capel y Rug

Capel o'r ail ganrif ar bymtheg, dim ond milltir i'r gogledd-orllewin o Gorwen ar yr A494 (gofynnwch i weld Eglwys Llangar gerllaw hefyd).

www.cadw.llyw.cymru 03000 252239



### Rug Chapel

Seventeenth-century chapel is just a mile north-west of Corwen on A494 (ask to see nearby Llangar Church too).

www.cadw.gov.wales 03000 252239


# Llwybr y dref | Town trail

| | |
|---|---|
| **Pellter** | 0.6 milltir /1km heb gynnwys Coed Pen y Pigyn |
| **Pa mor anodd yw'r llwybr?** | Cymharol wastad ac eithrio'r ddringfa gymedrol ddewisol i Goed |
| **Amser yn cerdded** | 45 munud |
| **Man cychwyn** | Maes parcio Y Lôn Las LL21ODN |
| **Cludiant cyhoeddus** | Traveline Cymru 0800 464 0000, Ymholiadau Rheilffyrdd Cenedlaethol 03457 484950 |

| | |
|---|---|
| **Distance** | 0.6 miles /1 km excluding Coed Pen y Pigyn |
| **Difficulty** | Fairly flat except for optional moderate ascent to Coed Pen Y Pigyn |
| **Walking time** | 45 minutes |
| **Start point** | Green Lane car park LL21 ODN |
| **Public transport** | Traveline Cymru 0800 464 0000, National Rail Enquiries 03457 484950 |

## 1 Rheilffordd Llangollen

Yn ôl yn 2014, diolch i estyniad gwerth £1 miliwn i reilffordd Llangollen, daeth trenau stem yn pwffian yn ôl i Gorwen am y tro cyntaf ers hanner can mlynedd. Erbyn hyn mae modd teithio am 10 milltir fendigedig ar hyd lannau Afon Dyfrdwy o Gorwen drwy orsafoedd Carrog, Glyndyfrdwy a Berwyn i Langollen. Heb os dyma un o'r siwrneiau trên godidocaf ym Mhrydain. Erbyn hyn, diolch i orsaf newydd odidog Corwen a phlatfform 'ynys', mae'r siwrnai wedi ymestyn ychydig o lathenni.



## 1 Llangollen Railway

Back in 2014 a £1 million extension to Llangollen Railway brought a welcoming toot and a hiss of steam to Corwen for the first time in 50 years. It meant you could ride for 10 glorious miles between Corwen and Llangollen via stations at Carrog, Glyndyfrdwy and Berwyn, hugging the banks of the River Dee all the way. It's one of the most beautiful railway journeys in Britain. Now, thanks to Corwen's magnificent new station and island platform stretching right into the town centre, it's a few hundred yards longer still.

## 2 Dôl Corwenna

**Ewch i gyfeiriad yr arwydd werdd ar ochr ddwyreiniol y maes parcio a dilynwch y llwybr.**

Mae Dôl Corwenna'n fwy na dim ond parc bach del yng nghanol Corwen. Y mae hefyd yn safle ecolegol â'i ddôl blodau gwyllt a'i galendr hinsawdd yn profi effeithiau cynhesu byd-eang. Mae pwrpas yr un mor bwysig i'r berllan gymunedol, sef tyfu a rhannu ei chynhaeaf o afalau, gellyg, ceirios ac Eirin Dinbych Dyffryn Clwyd. Hefyd, er nad yw'n amlwg wrth grwydro'r parc, y fan hon hefyd yw cartref Cawr Corwen – o Ben y Pigyn y ceir yr olygfa orau o'r cawr mawr ynghwsg.



## 2 Dôl Corwenna

**Head for the green sign on the eastern side of the car park and follow path.**

Dôl Corwenna isn't just a pretty little park in the heart of Corwen. It's also an ecological site whose wildflower meadow and climate calendar is testing the effects of global heating. The community orchard has an equally important purpose – providing a shared harvest of apples, pears, cherries and Vale of Clwyd Denbigh Plums. You may not spot him here at ground level but this is also the home of the Corwen Giant – lofty Coed Pen y Pigyn offers the best view of his sleeping figure.

## 3 Amgueddfa Corwen

Agorodd amgueddfa Corwen am y tro cyntaf yn 2015 gydag arddangosfa dros dro'n dathlu Corwen fel tref reilffordd. Cymaint oedd llwyddiant yr arddangosfa sefydlwyd amgueddfa barhaol mewn hen gapel gosgeiddig ar Ffordd Llundain. Mae tîm dynodedig o wirfoddolwyr yn creu arddangosfeydd ar themâu'n cynnwys Owain Glyndŵr, y rhyfel Byd Cyntaf, celf a diwylliant lleol, porthmona a ffermio, Tirwedd Genedlaethol Bryniau Clwyd a Dyffryn Dyfrdwy a gweithwyr llechi Glyndyfrdwy (gydag atgynhyrchiad 'ymgolli' o chwarel lechi).




## 3 Corwen Museum

The museum began life back in 2015 with a temporary exhibition celebrating Corwen as a railway town. It was so successful it became a permanent fixture inside a handsome former chapel on London Road. A dedicated team of volunteers mount displays on themes including Owain Glyndŵr, the First World War, local arts and culture, droving and farming, the Clwydian Range and Dee Valley National Landscape and the slate workers of Glyndyfrdwy (with immersive replica slate mine).

## 4 Corwen Manor

Gwnaeth ffordd Thomas Telford o Lundain i Gaergybi, yr ydych ar fin ei chroesi, Corwen yn fan aros pwysig i deithwyr rhwng Lloegr a'r Iwerddon yn yr 19eg ganrif. Yn anffodus ni allai pawb fforddio pris coets fawr – neu hyd yn oed dorth o fara. Adeiladwyd Corwen Manor fel tloty ym 1840 i roi cartref i 150 o dlodion o saith plwyf, dynion mewn un adain a merched yn y llall. Mae bellach yn ganolfan grefftau a chaffi. Gyferbyn, lle mae siop gyfleustra erbyn hyn, roedd adeilad a alwyd yn Gorffwysfa'r Crwydriaid ar un adeg. Yma roedd crwydriaid yn ennill eu bwyd a'u llety drwy dorri canpwys o gerrig y dydd – dydi hynny ddim yn swnio fel llawer o orffwys.




## 4 Corwen Manor

Thomas Telford's London to Holyhead road, which you are about to cross, made Corwen an important staging post for travellers between England and Ireland in the 19th century. Sadly not everyone could afford the price of a stagecoach – or even a loaf of bread. Corwen Manor was built as a workhouse in 1840 to house 150 paupers from seven parishes, men in one wing and women in the other. It's now a craft centre and café. Opposite, where a convenience store now stands, was once a building called Tramps Rest. Here vagrants earned their food and lodging by breaking a hundredweight of stone a day – which doesn't sound like too much of a rest.

## Caer Drewyn

Caer Drewyn yw'r fryngaer fwyaf deheuol o gadwyn ysblennydd o fryngaerau Oes yr Haearn sy'n ymestyn ar draws Fryniau Clwyd a Mynyddoedd Llantysilio. Mae bron i 1,000 troedfedd uwchben lefel y môr ac yn dominyddu'r nenlinell i'r gogledd-ddwyrain o Gorwen ac yn cynnig golygfeydd trawiadol o Ddyffryn Edeirnion. Mae bryngaer Caer Derwyn, a godwyd gan y Celtiaid tua 800 CC, ymhlith y bryngaerau sydd yn y cyflwr gorau yng Nghymru a, gan na chafodd ei chloddio erioed, mae'n un o'r rhai mwyaf dirgel. Ar un adeg, tyfai'r Rhufeiniaid rawnwin ar y llethrau deheuol ac fe'i defnyddiwyd fel canolfan filwrol gan y tywysogion canoloesol Owain Gwynedd ac Owain Glyndŵr.


Ewch i fyny'r Lôn Las, parciwch ym maes parcio'r ganolfan hamdden a dilynwch yr arwyddion.



## Caer Drewyn

Caer Drewyn is the most southerly of a spectacular chain of Iron Age hillforts stretching right across the Clwydian Range and Llantysilio Mountains. It rises nearly 1,000 feet above sea level to dominate Corwen's north-east skyline and offer stunning views of the Vale of Edeyrnion. Built by Celts in about 800 BC, Caer Drewyn is one of the best-preserved hillforts in Wales and, since it was never excavated, one of the most mysterious. Romans once grew grapes on the south-facing slope and the medieval princes Owain Gwynedd and Owain Glyndŵr both used it as an army base.

Just head up Green Lane, park in the leisure centre car park and follow the signs.




**www.gogleddddwyraincymru.cymru www.northeastwales.wales**

## Tra eich bod yn cerdded....

Sefwch wrth fynedfa'r eglwys ac edrychwch i lawr y llwybr at giât y fynwent. Ar y dde mae beddau gyda "cherrig penlinio", sydd ond i'w cael yn y rhan hon o Gymru, lle y credir fod gweddwon yn gweddïo am eu gwŷr ymadawedig.

## While you're walking....

Stand at the church entrance and look down the path to the lych gate. On your right are graves with "kneeling stones", found only in this part of Wales, where it's thought widows prayed for their departed husbands.

## 5 Eglwys Sant Mael a Sant Sulien

Sefydlodd Sant Mael a Sant Sulien eu heglwys yma yn y chweched ganrif, ond mae'r adeilad presennol yn dyddio o'r 1200au. Mae maen hir cynhanesyddol wedi'i adeiladu i mewn i'r porth wrth y fynedfa ac i'r de mae siafft yr hyn a allai fod yn groes bregethu o'r nawfed ganrif. Y tu mewn mae bedyddfaen a allai fod yn 1,000 o flynyddoedd oed. Yn y cefn,y tu ôl i fariau, cerfiwyd croes ar y lintel uwchben drws yr offeiriad – honnir ei fod yn farc a wnaed pan hyrddiodd Owain Glyndŵr ei ddagr i lawr o ochr bryn Pen y Pigyn mewn cynddaredd.

**Gadewch y fynwent wrth y giât dro fetel tuag at y gorllewin (chwiliwch am garreg fedd Owen Owen y gyrrwr injans tua'r chwith).**



## 5 Church of St Mael and St Sulien

Saint Mael and Saint Sulien founded their church here in the sixth century but the present building dates from the 1200s. A prehistoric standing stone is built into the entrance porch and to the right stands the shaft of a possibly ninth-century preaching cross. Inside is a font that could be 1,000 years old. Round the back, behind bars, the lintel above the priest's doorway is carved with a cross – supposedly the mark made when Owain Glyndŵr hurled down his dagger from Pen y Pigyn hillside in a rage.

**Leave the churchyard by the metal turnstile to the west (look out for the gravestone of Owen Owen the engine driver away to the left).**

## 6 Coed Pen y Pigyn

**Os ydych am fynd ar y daith ddewisol i Goed Pen y Pigyn, trowch i'r chwith a dilynwch y llwybr troed ar ben Mill Street. Mae'n rhaid mynd i fyny'r allt, ar lwybr glaswelltog a charegog – ond mae'r golygfeydd yn ysblennydd. Fel arall, trowch i'r dde tuag at ganol y dref.**

Wrth i chi ddringo trwy goedwig dderw Coed Pen y Pigyn, sy'n gynefin i sawl rhywogaeth o ystlumod, byddwch yn mynd heibio i daith gylchol Llwybr y Dagr i'r chwith a chylch cerrig yr Orsedd atmosfferig a godwyd ar gyfer Eisteddfod Genedlaethol 1919. Ar ben y llwybr, 800 troedfedd uwchben y dref a gyda'r Afon Dyfrdwy yn ymestyn o'ch blaen chi yn un rhuban, mae heneb garreg i ddathlu priodas Tywysog Cymru yn 1863.



## 6 Coed Pen y Pigyn

**For the detour to Coed Pen y Pigyn, turn left and follow the footpath at the end of Mill Street. It's uphill, grassy and stony – but the views are spectacular. Otherwise just turn right for the town centre.**

As you climb through the oak woodland of Coed Pen y Pigyn, home of many species of bat, you'll pass the circular Dagger Trail on your left and an atmospheric Gorsedd stone circle erected for the National Eisteddfod of 1919. At the top of the path, 800 feet above the town and with the River Dee laid out before you like a ribbon, is a stone monument to celebrate the marriage of the Prince of Wales in 1863.

## 7 Gwesty Owain Glyndŵr

Mae blaen Gwesty Owain Glyndŵr, gyda'i bortico Eidalaidd, yn dyddio o ddechrau'r 19eg ganrif – blynyddoedd ffyniannus i Gorwen, diolch I welliannau eithriadol Thomas Telford i'r ffordd o Lundain i Gaergybi. Mae'n llawer hŷn at y tu mewn, gan ei fod yn wreiddiol yn fynachlog ar dir yr eglwys. Yma, ym 1789, y cynhaliwyd yr eisteddfod gyhoeddus gyntaf yng Nghymru – traddodiad a arweiniodd at ŵyl ddiwylliannol fawreddog Eisteddfod Genedlaethol Cymru. Yn llai llawen, dywedir fod y gwesty yn gartref i ysbryd gwraig a brofodd ddiwedd trist i'w charwriaeth â mynach. Nawr yn fenter gan y gymuned gyda digon o ddigwyddiadau'n diddorol drwy'r flwyddyn.



## 7 Owain Glyndŵr Hotel

The frontage of the Owain Glyndŵr Hotel, with its Italianate portico, dates from the early 19th century – boom years in Corwen thanks to Thomas Telford's drastic improvements to the London to Holyhead road. Inside it's much older, having originally been a monastery in the grounds of the church. It was here in 1789 that the very first public eisteddfod in Wales was held – a tradition leading to the great cultural festival of the National Eisteddfod of Wales. Less cheerily, the hotel is said to be haunted by the ghost of a woman whose affair with a monk ended in tears. Now a community-run venture with numerous events on throughout the year.

## 8 Cerflun o Owain Glyndŵr

Dyma fo: arwr mwyaf Cymru a hoff fab Corwen. Dadorchuddiwyd y cerflun efydd gwych hwn o Owain Glyndŵr yn 2007 i nodi'r foment ym 1400 pan y cyhoeddodd mai ef oedd Tywysog Cymru a dechrau gwrthryfel cenedlaethol yn erbyn rheolaeth Lloegr. Yn fuan roedd yn goruchafu ar lawer o Gymru, ond, o dan bwysau gan y darpar Harri V, dechreuodd ei wrthryfel bylu ac erbyn 1415 roedd wedi diflannu, ond ni chafodd fyth ei ddal. Dethlir "tad y Gymru fodern" ar 16 Medi bob blwyddyn ar Ddiwrnod Owain Glyndŵr.

**O'r Sgwâr, ewch ar hyd y llwybr rhwng siop y cigydd a'r caffi i ddychwelyd i'r maes parcio.**



## 8 Statue of Owain Glyndŵr

Here he is: Wales's greatest hero and Corwen's favourite son. This superb bronze statue of Owain Glyndŵr was erected in 2007 to mark the moment in 1400 when he declared himself Prince of Wales and launched a national revolt against English rule. He soon dominated much of Wales but, under pressure from the future Henry V, his star began to wane and by 1415 he had disappeared, never to be captured. The "father of modern Wales" is celebrated every September 16th on Owain Glyndŵr Day.

**From The Square, take the passageway between the butcher's shop and the café to return to the car park.**

## Tomen Owain Glyndŵr

Yn wreiddiol, roedd y domen goediog hon yn fwnt i gastell cloddwaith Normanaidd ac yn ddiweddarach yn rhan o gartref teuluol Owain Glyndŵr. Safai ei blasty, a chwalwyd gan filwyr Lloegr ym 1403, yn y cae islaw. Dyma oedd yr union fan lle y cyhoeddwyd Owain yn Dywysog Cymru cyn mynd ati i reibio Rhuthun, Dinbych, Rhuddlan, y Fflint, Penarlâg, Holt, Croesoswallt a'r Trallwng – y cyfan mewn wythnos.

Mae'r domen ar dir preifat dair milltir i'r dwyrain o Gorwen a chwarter milltir i'r dwyrain o Lidiart-y-Parc, i'r chwith wrth yr A5. Chwiliwch am gilfan fechan gyferbyn â bwrdd dehongli.



## Owain Glyndŵr's Mound

This tree-covered mound was originally the motte of a Norman earthwork castle and later part of the ancestral home of Owain Glyndŵr. His mansion, razed by English troops in 1403, stood in the field below. This was the very spot where Owain was proclaimed Prince of Wales before setting off to ravage Ruthin, Denbigh, Rhuddlan, Flint, Hawarden, Holt, Oswestry and Welshpool – all in a week.

The mound is on private land three miles east of Corwen and a quarter of a mile east of Llidiart-y-Parc, to the left of the A5. Look out for a small layby opposite an interpretation board.